Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Cynigion ar gyfer casgliadau data tai a allbynnau ystadegol 2021-22

Mae'r papur hwn yn crynhoi cyfres o gynigion sy'n deillio o'r trafodaethau hyn ac yn gofyn am adborth gan y rheini sy'n rhan o'r Grŵp Gwybodaeth Tai.

Cyhoeddwyd gyntaf: 11 Mehefin 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 11 Mehefin 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-casgliadau-data-tai-allbynnau-ystadegol-2021-22-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Cefndir

Crynodeb o’r cynigion

Cefndir

O ganlyniad i bandemig COVID-19, cafodd llawer o'r casgliadau data tai/ allbynnau ystadegol a gynhyrchwyd yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru eu canslo neu eu gohirio yn ystod 2020.

Ar ddechrau 2021, cynhaliodd y tîm casglu data a'r tîm ystadegau tai yn Llywodraeth Cymru gyfres o drafodaethau â chydweithwyr polisi i bennu’r gofynion tystiolaeth parhaus ac adolygu'r amserlen i gyflwyno/cyhoeddi data ar gyfer 2021-22 (a fyddai’n cipio data ar gyfer cyfnod 2020-21).

Rhoddwyd ystyriaeth i’r adegau yr oedd angen data ar wahanol bynciau yn ystod y flwyddyn, y baich a roddir ar ddarparwyr data a'r tîm casglu data, yn ogystal â sut y mae trefn casgu’r data yn ystod y flwyddyn yn effeithio ar ddilysiant y gwahanol gasgliadau.

Mae'r papur hwn yn crynhoi cyfres o gynigion sy'n deillio o'r trafodaethau hyn ac yn gofyn am adborth gan y rheini sy’n rhan o’r Grŵp Gwybodaeth Tai.

Crynodeb o’r cynigion

Rydym yn cynnig y newidiadau canlynol i gasgliadau data tai / datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22:

- Bydd gwybodaeth reoli am lety i'r rhai sy'n ddigartref / am y rhai sy'n cysgu allan yn parhau i gael ei chasglu gan awdurdodau lleol a'i chyhoeddi'n fisol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-casgliadau-data-tai-allbynnau-ystadegol-2021-22-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

tan fis Mawrth 2022 o leiaf.

- Bydd y gwaith blynyddol a statudol o gasglu a chyhoeddi data ar ddigartrefedd ar gyfer 2020-21 yn cael ei gynnal, a rhai tablau data yn cael eu dileu. Ni ofynnir am ddata ar gyfer chwarteri unigol (cyfnodau o dri mis) ac ni chyhoeddir penawdau ystadegol chwarterol.
- Bydd data ar dai newydd eu hadeiladu ar gyfer 2020-21 yn cael eu casglu a'u cyhoeddi'n flynyddol yn unig. Ni ofynnir am ddata ar gyfer chwarteri unigol ac ni chyhoeddir penawdau ystadegol chwarterol.
- Bydd amserlen a gwaith comisiynu rhai casgliadau data yn dechrau'n hwyrach nag sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol. A'r rheswm am hyn yw y bydd angen i Lywodraeth Cymru a darparwyr data ddal i fyny â'r casgliadau a ohiriwyd yn 2020-21.

Nodwch fod y cynigion hyn yn ymwneud â 2021-22 yn unig ac y byddant yn cael eu hadolygu ar gyfer y blynyddoedd dilynnol.

Amlinellir amserlen fanwl o gasgliadau data yn y tabl isod.

Casgliadau / Datganiadau Data	**Dyddiad anfon ffurflenni**	**Dyddiad dychwelyd ffurflenni**
Gwerthiannau gan Landlordiaid Cymdeithasol Cymru 2020-21	19 Mai 2021	3 Mehefin 2021
Y stoc ar 31 Mawrth 2021 a rhenti wythnosol 2021-22	21 Mai 2021	11 Mehefin 2021
Tai newydd eu hadeiladu, Blynyddol: Ebrill 2020 i Mawrth 2021	21 Mai 2021	9 Mehefin 2021
Digartrefedd, Blynyddol: Ebrill 2020-Mawrth 2021	21 Mai 2021	15 Mehefin 2021
Darparu Tai Fforddiadwy 2020-21	18 Mehefin 2021	16 Gorffennaf 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-casgliadau-data-tai-allbynnau-ystadegol-2021-22-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Tai Cymdeithasol: Cytundeb Rhentu / SAP 2020-21	6 Medi 2021	20 Medi 2021
Tai Cymdeithasol: Eiddo Gwag 2020-21	22 Hydref 2021	26 Tachwedd 2021
Tai Cymdeithasol: Eiddo ar Osod 2020-21	22 Hydref 2021	26 Tachwedd 2021
Tai Cymdeithasol: Ôl-ddyledion Rhent 2020-21	22 Hydref 2021	26 Tachwedd 2021
Dymchweliadau, Peryglon a Thrwyddedau 2020-21	27 Awst 2021	8 Hydref 2021
Cymorth ar gyfer Gwella Tai 2020-21	15 Hydref 2021	12 Tachwedd 2021
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl 2020-21	15 Hydref 2021	12 Tachwedd 2021
Gweithgarwch Ardaloedd Adnewyddu 2020-21	15 Hydref 2021	12 Tachwedd 2021

Nodwch fod casgliadau data a drefnwyd ar gyfer hanner olaf 2021-22 yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Gallai'r casgliadau hyn gynnwys gofyniad data is, ond ni fyddant yn cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r hyn y gofynnwyd amdano mewn blynyddoedd blaenorol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-casgliadau-data-tai-allbynnau-ystadegol-2021-22-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cynigion ar gyfer casgliadau data tai a allbynnau ystadegol 2021-22** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-casgliadau-data-tai-allbynnau-ystadegol-2021-22-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-casgliadau-data-tai-allbynnau-ystadegol-2021-22-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.